

# Y Wennol Newydd

Straeon gan dysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

## Cyfrol 1 Rhif 2



## Y Gwanwyn

Mae'n ofnadwy gorfod bod yn gaeth yn y tŷ, yn enwedig yn y gwanwyn—y tymor gorau i gyd. Dw i eisiau crwydro a gweld clychau'r gog yn eu gogoniant. Dw i eisiau gweld y lliwiau newydd, glan, y byd yn deffro. Haul cynnes ar fy nghefn wrth i mi gerdded llwybr yr arfordir. Dw i eisiau gweld y wenoliaid yn cyrraedd, dw i eisiau clywed y gog.

Dw i eisiau gwneud y pethau dw i'n gwneud pob gwanwyn - ond allaf i ddim. Ond mi fydd y gwanwyn yn digwydd blwyddyn nesaf ac mi fydda i yna. Dim ond ni sydd ar stop. Mae byd natur yn mynd ymlaen fel arfer. Diolch byth. Cadwch yn ddiogel—Rob

## Cynllun Cyfreithiol

Gan John Pritchard Jones

Fel aelod o Gerddwyr Abertawe mae gorfod gohirio'r teithiau am fisoedd yn boenus iawn. Cefais y daith olaf gyda'r Cerddwyr ar Fawrth 16 - naw ohonom yn Nyffryn Clun. Rhaid oedd cadw 2 metr rhyngom ni'n gilydd. Dim problem i fi fel "back marker"! Ond doedd dim diod na chyfeillgarwch yn y Woodman's ar y diwedd o achos y feirws.

Mae'r rheolau newydd yn caniatáu i ni fynd allan o'r tŷ am awr y dydd yn lleddfu'r poen. Felly dyma sut y cymerais fantais o'r caniatâd hyd yma, sef Ebrill 3. Rhaid dewis llwybr yn cychwyn o'r tŷ bob dydd. Gan fy mod yn byw yn Mwmbwls ac o fewn 50metr o'r môr, mae'n hawdd cychwyn heb angen bws na char.

Wedyn rhaid oedd dewis daith pob dydd am awr o fis Mawrth ymlaen os oedd y tywydd yn ffafriol. Ac, yn lwcus iawn roedd y tywydd yn iawn bron bob diwrnod.

Dyma'r rhestr:-

- 1) Llwybr yr arfordir o'r sgwâr yn Mwmbwls i Bae Langland ac yn ôl trwy'r strydoedd - dwywaith.
- 2) Sgwâr Mwmbwls i'r pier - tair gwaith.
- 3) Ar lan y môr i gyfeiriad Abertawe (West Cross) ac yn ôl trwy Gastell Ystumllwynarth a'r goedwig. Cyfle i glywed yr adar yn canu - tair gwaith.
- 4) Sgwâr Mwmbwls i fyny Newton Road ac Underhill Park ac yn ôl trwy hen fynwent y pentref. Llawer mwy o adar yn canu yn swynol.
- 5) Llawer dro bach i Verdi yn cymryd rhyw hanner awr gyda'r nos a gweld neb bron ar y prom.

A dyna ni, dw i'n colli cyfeillgarwch fy ffrindiau ond y peth pwysig yw cadw'n heini!

## Geirfa

Ystumllwynarth - Oystermouth

**Coronafeirws**  
**Gan Val Richards**

Hunan ynysu, mae'r teulu a fi  
Yn mynd yn fananas, yn sownd yn y tŷ.  
Mae coronafeirws yn gwneud niwed mawr  
I bawb yn y wlad 'ma a dros y byd nawr.  
Does neb yn y siopau, heblaw prynu bwyd.  
Dyn ni ddim yn cofio'r fath broblem erioed.  
Mae'r 'sgolion ar gau nawr a hefyd y coleg  
Ond gwersi yn para, diolch i dechnoleg.  
Dim siawns i ni gwrdd â ffrindiau na phobl,  
Mynd i dŷ bwyta neu dafarn o gwbl.  
Dw i'n tynnu fy ngwallt mas, heb ddigon o le  
I dreulio ein hamser – ond beth am y we?  
Rhaid dweud bod tabledi yn profi'n dda iawn  
I ni, ar y foment, i'n diddanu ni'n llawn.  
Diolch byth am ein gerddi i gael awyr iach,  
Mae'n hyfryd ymlacio tu fas tipyn bach.  
Dw i'n codi yn gynnar i fwcio slot Tesco  
Gorlenwi fy nghwpwrdd - ond peidiwch â becco!  
Mae stoc fawr o bapur tŷ bach gyda fi.  
Fy nwylo dw i'n golchi yn aml. Dych chi?  
Rhaid ffeindio brechlyn er mwyn llethu'r clefyd  
Sy'n lledu mor gyflym, ein dychrynu ni hefyd.  
Meddygon a nyrsys yw'r arwyr yn wir  
Wrth weithio mor galed ym mhob tref a sir.  
A phobl y wlad 'ma, beth hoffem ni ddweud?  
“Diolch o galon am bopeth chi'n gwneud”

Wel! Beth amdanoch chi? Oes gennych chi  
stori rywle yng nghefn eich meddwl. Dyma'ch  
cyfle. Anfonwch eich darn at

bobwennol@ntlworld.com

Mae'n ffordd ardderchog i ddatblygu eich  
Cymraeg ac adeiladu eich hyder

**Y Byd Fel y Mae**  
**Gan Susan Gilson**

Mae hwn yn gyfnod mor anodd ac  
anarferol i ni, yr hunan ynysu. Ni allwn ymweld  
na cwrdda'n ffrindiau, methu â mynd i'n heglwysi  
i addoli, yn methu â bwyta allan neu fynd i'r  
siopau. Sut ydyn ni'n ymdopi? Wel yr ateb yw “Yn  
iawn.”

Er fy mod yn y categori 'mewn perygl' dw i  
mor ddiolchgar fy mod i'n gallu mynd allan am  
dro unwaith y dydd. Yn ystod yr wythnosau  
diwethaf rydw i wedi bod wrth fy modd yn bod  
allan ar y clogwyni mor gynnar â hanner awr wedi  
saith yn y bore. Pwy fyddai wedi credu y gallwn  
adael y llestri brecwast heb eu golchi a'r gwely  
heb eu gwneud er mwyn mynd allan i'r clogwyni  
mor gynnar. Mae e'n amser hyfryd. Mae'r aer  
mor bur, y môr mor las ac yn edrych fel pwll  
melin. Mae'r eithin melyn a'r glaswellt a pherthi  
gwyrdd mor bert; mae eu lliwiau'n ymddangos  
cymaint yn fwy disglair. Rwy'n anadlu i mewn ac  
edrych o amgylch, yn mwynhau'r llonyddwch a'r  
'sŵn distawrwydd'.

Unwaith adref, rwy'n ail-lenwi'r porthwyr  
adar ac yn llanw'r baddonau adar â dŵr ffres.  
Mae'n hyfryd eu gweld yn sblasio ac yn  
mwynhau'r dŵr glân. Mae pâr o dditiai glas yn  
llygadu'r blwch nythu ar y ffens. Tybed ai'r un pâr  
ag a nythodd yma'r llynedd.

Mae'r defaid yn y caeau ar waelod fy  
ngardd yn deffro, yn anghofus i broblemau ein  
byd. Mae eu hŵyn newydd ei eni yn bleser i'w  
gwyllo. Diolch i Dduw y gallaf eu gweld a'u  
clywed eu synau yn llenwi'r awyr. Maen nhw'n  
anhygoel i wyllo, rhedeg o gwmpas a chwarae  
gyda'i gilydd. Maen nhw'n fy atgoffa o blant ifanc  
yn iard yr ysgol pan maen nhw'n leinio i fyny ar  
un pen o'r iard ac yn rasio i'r pen arall. Mae'r wŷn  
yn gwneud yr un peth yn rhedeg gyda'i gilydd o  
un pen o'r cae i'r llall. Maen nhw'n wneud i mi  
wenu a chwerthin.

Ambell i waith maen nhw'n mynd ar goll,

ac yn crio fel babanod am ei mamau, y sŵn yn uchel a thrallodus. Mae'r famog yn ei thro yn ateb yn ei llais aeddfed dwfn ac mae'r ŵyn bach yn rhedeg ar unwaith ati .

Er gwaethaf yr hyn sy'n digwydd yn ein byd, mae'n dal i fod yn fyd rhyfeddol. Rwyf wedi sylweddoli bod y firws erchyll hwn wedi rhoi rhyddid o fath newydd, amser i ymlacio mwy. Does dim rhaid i ni gadw'r llygaid ar y cloc i gyrraedd apwyntiad mewn amser neu wynebu torf o bobl yn y siopau. Yr hyn sy'n bwysig nawr yw'r amser i fwynhau a gwerthfawrogi'r hyn sydd o'n gwmpas, yr amser nawr i 'sefyll a syllu.'

Ôl-nodyn: 'Dw i ddim wedi anghofio golchi'r llestri!

### Geirfa

Porthwyr adar – bird feeders  
Baddonnau adar – bird baths  
Titiau glas – blue tits  
Trallodus – troubled  
Aeddfed dwfn -deep and mature  
Torf – crowd  
Sefyll a syllu – to stand and stare

---

## Adolygiad Llyfr

Gan Martin Jones

### Llyfr Glas Nebo - Manon Steffan Ros

Rydw i'n meddwl weithiau ein bod ni ddim yn cael hyd i ddigon o amser i ddarllen – mae wastad rhywbeth arall i'w wneud. Ond gall darllen roi cymaint o bleser i ni, a gall llyfr da mynd â ni i bob math o leoedd – yn y byd hwn neu ym myd y dychymyg – ac yn gwneud i ni chwerrhin, wylo, teimlo'n hapus neu'n drist ac yn y blaen.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n mynd trwy gyfnod ansicr, ond efallai os ydy unrhyw beth positif am y Lockdown, y cyfle i ni godi llyfr ac ymgolli ein hunain ynddo fe ydy e.

Y llyfr dw i am siarad amdano yw Llyfr Glas Nebo gan Manon Steffan Ros, y llyfr a enillodd y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd, achos ei fod e'n ymddangos i fi bod un o'i themâu'n berthnasol iawn yn y cyfnod hwn - sef mewn cyfnod fel hyn cymaint mwy rydyn ni'n ei

weld ac rydyn ni'n ei glywed, a sut dylen ni ailystyried ein ffordd o fyw.

Lleolir y llyfr yn Nebo, pentref bach yng ngogledd Cymru, rai blynyddoedd ar ôl Y Terfyn – rhyw fath o drychineb niwclear. Mae'r llyfr yn awgrymu bom niwclear neu efallai ffrwydrad yn atomfa'r Wylfa, ond chawn ni ddim gwybod yn union beth ddigwyddodd.

Mae'r llyfr yn adrodd stori bywydau Rowenna a'i mab, Siôn, yn eu geiriau eu hunain, trwy beth maen nhw'n ei ysgrifennu mewn llyfr nodiadau â chlwr glas a elwir Llyfr Glas Nebo gan Siôn ar ôl yr hen lawysgrifau canoloesol Llyfr Coch Hergest a Llyfr Du Caerfyrddin. Fel arfer, mae Rowenna'n ysgrifennu am y cyfnod cyn Y Terfyn, ac mae Siôn yn ysgrifennu am eu bywydau ar ôl y trychineb arswydus hwnnw.

Mae'r llyfr yn edrych ar y perthynas rhwng Rowenna a Siôn a sut mae hi'n newid o berthynas rhwng mam a mab i berthynas o gyd-ddibyniaeth wrth i Siôn orfod tyfu'n ddyn yn sydyn iawn. Rydyn ni'n gweld sut maen nhw'n ymaddasu i'w bywydau newydd, a sut maen nhw'n dysgu byw oddi ar y tir.

Prin mae Siôn yn cofio bywyd cyn Y Terfyn, ac mae'n rhyfeddu at beth mae ei fam yn ei dweud wrtho fe am y ffordd roedd pobl yn arfer byw, er enghraifft y gwastraff a diffyg pwrpas bywydau pobl. Ac mewn un man, mae Rowenna'n edrych yn ôl i'r cyfnod cyn Y Terfyn gan sylweddoli cymaint mwy mae hi'n gweld a chlywed nawr: pethau fel patrwm y glaw ar ffenestri a llais y gwynt. Yn hwyrach, mae hi'n rhestru pethau gorau eu bywyd - rhestr o bethau syml sy'n dod i ben â'r "diffyg pobol, prysurdeb. Yr holl ddiffygion hyfryd. Byw." Mae'n amlwg, er bod eu ffordd o fyw ar ôl Y Terfyn yn anodd, eu bod nhw wedi dod i'w gwerthfawrogi.

A phan mae Rowenna'n clywed yr arwydd cyntaf o bethau'n dychwelyd i'r hen drefn, sef sŵn hofrennydd, ofn ydy ei hadwaith greddfol: ofn mynd yn ôl i'r hen fyd trydanol ac amhersonol. Mewn geiriau Siôn, "Roedd yr hen ddyddiau cyn Y Terfyn yn ein bygwth ni'n dau."

Enillydd y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod ar y pwnc "Ynni" ydy'r llyfr hwn, ond wrth ganolbwyntio ar y personol yn hytrach na'r

gwyddonol, mae'r awdur wedi creu cymeriadau credadwy rydyn ni'n gofalu amdany'n nhw, a rhoi i ni llyfr sy'n gwneud i ni ail-ystyried ein ffordd o fyw ein hunan.

### Geirfa

Y Terfyn – the End  
Trychineb – disaster  
Ffrwydrad - explosion  
Arswydus – terrible  
Cyd-ddibyniaeth – interdependent  
Ymaddasu – to adapt to each other

(Os ydych am ddarllen Llyfr Glas Nebo mae ar gael oddi wrth [www.gwales.com](http://www.gwales.com) neu allech chi ei brynu fersiwn Kindle oddi wrth Amazon)

## Sut ydych chi'n llenwi'ch amser?

gan Michael Williams

Mae gorfod aros gartref yn gyfle da i wneud pethau sydd ar eich rhestr i'w gwneud. Ar y cychwyn fe benderfynais wneud rhywbeth a oedd wedi bod ar fy rhestr ers ychydig flynyddoedd, sef creu llyfr lloffion o'r enw "Fy mywyd mewn lluniau a dogfennau". Prynais y llyfr lloffion ychydig fisoedd yn ôl; mae'n gynnwys dim ond 80 tudalen, ond mae gyda fi filoedd o luniau\*! Roedd fy nhad yn ffotograffydd brwd iawn. Fe ddechreuodd dynnu lluniau gyda chamera boes pan oedd yn fachgen bach, a dysgais hanfodion ffotograffiaeth ganddo. Roedd e'n arfer troi'r gegin yn ystafell dywyll trwy ddodi blacowt ar y ffenestr, a dw i'n cofio gwyllo'r delweddu yn ymddangos yn y ddysgl datblygu. Roedd hi'n hudolus! Gwnes i'r un peth - defnyddio'r gegin fel ystafell dywyll.

Y cam cyntaf oedd dethol luniau ohonof fy hun yn blentyn yn albymau fy nhad. Wedyn roedd rhaid i mi baratoi rhestr o luniau am fy mywyd yn fy arddegau, ac yn oedolyn. Hyd at hyn dw i wedi creu 14 tudalen a chyrraedd oedran 22. Felly mae llawer mwy i'w gwneud! Dw i'n mwynhau'r dasg hon yn fawr iawn. Mae didoli, sganio ac argraffu'r lluniau yn dod â llawer o atgofion hapus yn ôl.

\*Efallai bydd rhaid i mi brynu ail lyfr lloffion. Dw

i'n gwybod gallaf greu fersiwn electronig heb derfyn ond mae'n well 'da fi gael llyfr yn fy nwylo.

*Dw i'n gwybod yn union beth wyt ti'n feddwl Michael*

### Geirfa

Llyfr lloffion – scrap book  
Hanfodion – the essence  
Ystafell dywyll – dark room  
Delweddu – images  
Dysgl datblygu – developing dish  
Dethol – to select  
Didoli – to sort

## Clod i'r Cyfranwyr

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu straeon y mis yma. Mae'r safon yn arbennig o dda, pob clod i chi gyd!

Wrth gwrs dw i angen mwy o gyfranwyr - mae'n annheg i ddibynnu ar yr un bobl bob tro. Baswn i'n hapus iawn i gael dwywaith y nifer sydd yn cyfrannu ar hyn o bryd.

Y broblem fawr efo cyrsiau Cymraeg i Oedolion yw bod llawer o'r dysgwyr yn diflannu ar ôl gorffen y cwrs. Mae'n anodd iddyn nhw ddod ar draws y ffordd i'r gymuned Cymraeg. Pwrpas y cyrsiau yw cryfhau'r iaith yn y gymuned ond os nad yw'r dysgwyr yn cyrraedd y gymuned nid yw'r iaith yn cryfhau.

Mae dwy flynedd yn mynd heibio'n gyflym ac mae'n rhaid cael ryw ffordd o glymu'r dysgwyr i'r iaith ar ôl hynny .

Dyma bwrpas cylchlythyr fel hyn, cael dysgwyr i gyfrannu tra bod nhw ar y cyrsiau ac unwaith mae'r cyrsiau drosodd mae rhyddid iddyn nhw fynd ymlaen i gyfrannu neu i ddarllen erthyglau pobl eraill. Bydden nhw'n dal i ddefnyddio eu Cymraeg ac, wrth ei ddefnyddio bydden nhw'n dysgu mwy. Ydi hynny'n gwneud synnwyr?

Cysylltwch â fi— bobwennol@ntlworld.com

Cadwch yn ddiogel!